**Adroddiad Rhif 23/24**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**Adroddiad Rhelowr Y Gwasanaethau Democrataidd**

---

**Pwnc:**
**Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol**

Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd Iaith Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei fusnes, a'r dyddiadau y mae'r Awdurdod yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30ain o Fehefin pob blwyddyn, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio, ac mae copi o'r adroddiad hwnnw wedi'i atodi.

**ARGYMHELLIAD:**

**Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i'r Comisiynydd Iaith.**

Papurau Cefndir:
Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd i'r Awdurdod ar y 30ain o Fedi 2015
Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'i amrywiwyd a gyhoeddwyd i'r Awdurdod ar y 23ain o Ionawr 2017

(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Caroline Llewellyn, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ar 01646 624804, neu drwy e-bostio carolinel@arfordirpenfro.org.uk)

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Ebrill 2023 – Mawrth 2024

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn ar ffurfiau eraill hefyd dim ond ichi ofyn.
Cysylltwch â:

Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

SA72 6DY

E-bost: carolinel@arfordirpenfro.org.uk

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â Gweinidogion Cymru, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddor o ganiatáu i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith ym mhob agwedd ar eu bywydau ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.

Wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, nod yr Awdurdod yw galluogi ein rhanddeiliaid i ddefnyddio'r iaith (Cymraeg neu Saesneg) y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd o dan y Mesur. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei fod wedi gwneud cynnydd ond bod gwelliannau i'w gwneud o hyd.

## 1. RHAGAIR/Y CEFNDIR

1.1 Golyga Safonau'r Gymraeg na ddylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau beunyddiol.

1.2 Yn fras, mae pum maes o Safonau:

- **Cyflenwi gwasanaethau**, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, caffael, a hunaniaeth gorfforaethol
- **Llunio polisi**, sy'n canolbwyntio ar gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- **Gweithredol**, sy'n canolbwyntio ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o ran staff yr Awdurdod a gweithgareddau mewnol
- **Hybu**, sy'n canolbwyntio ar hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach
- **Cadw cofnodion**, sy'n canolbwyntio ar gadw cofnodion ynghylch sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd.

1.3 Gosodwyd 170 o Safonau ar yr Awdurdod, a phennwyd dyddiad gweithredu cychwynnol o 30 Mawrth 2016. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae gofyn i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy ar ein gwefan ac ar ein mewnrwyd ar gyfer staff.

1.4 Mae Safonau 158, 164 a 170 yn pennu bod yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r nawfed adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r Safonau, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

1.5 Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod wedi ystyried yr adroddiad hwn a'i gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

## 2. MATERION YN CODI YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD

2.1 Yn ystod y flwyddyn derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn bod yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei rifyn o "Coast to Coast" bron yn gyfan gwbl yn Saesneg, yn groes i'r Safonau. Ymchwiliwyd i hyn a chadarnhawyd y gŵyn. Mae rhifyn 2024 o "O Lan i Lan" wedi'i gyhoeddi'n ddwyieithog.

## 3. SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU (SAFONAU 1 – 87)

3.1 I sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi dosbarthu canllawiau ar gyflawni gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr holl Reolwyr ac Arweinwyr Timau ddyletswydd i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion.

3.2 **Ateb y ffôn (Safonau 8 – 22)**

3.2.1 Yn ddiweddar, darparwyd hyfforddiant i'r staff Gwasanaethau Cwsmeriaid i gynyddu eu gallu i ateb mwy o alwadau yn y Gymraeg fel y pwynt cyswllt cyntaf.

3.3 **Cyfarfodydd Cyhoeddus (Safonau 24 – 36)**

3.3.1 Mae'r Awdurdod yn cynnal ei gyfarfodydd Awdurdod/Pwyllgor naill ai ar-lein neu fel cyfarfodydd aml-leoliad (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Awdurdod wedi dechrau cynnal rhai o'i gyfarfodydd yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithu ar y pryd. Rhoddir ystyriaeth i gynnal mwy o gyfarfodydd yn ddwyieithog, er ei bod yn egwyddor sydd wedi'i sefydlu y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael annerch Pwyllgor Rheoli Datblygu yr Awdurdod (yr unig gyfarfod lle caniateir siarad cyhoeddus) wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.4 **Dogfennau, Ffurflenni a Deunydd Cyhoeddusrwydd (Safonau 37 – 51)**

3.4.1 Ceisiwyd barn y cyhoedd ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol fel rhan o'r adolygiad o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac o ran dyfodol Traeth Mawr, Trefdraeth. Cynhaliwyd y ddau ymarferiad ymgynghori yn ddwyieithog a derbyniwyd ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.5 **Y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 a 55 – 59)**

3.5.1 Gall defnyddwyr gwefan yr Awdurdod ddewis yr iaith a ffefrir ganddynt drwy glicio'r botwm togl, neu defnyddio'r URL perthnasol. Yn ystod y cyfnod adrodd roedd anghysondeb yn ffigurau mis Chwefror 2024 pan nodwyd cyfanswm o 11,548 o ymweliadau â'n gwefan. Nid oes unrhyw reswm amlwg dros yr anghysondeb hwn. Serch hynny, mae'n ymddangos bod nifer yr ymweliadau â'r tudalennau gwe wedi cynyddu.

| Y nifer fu'n edrych ar ein gwefan fesul blwyddyn | Cymraeg | Saesneg |
|---|---:|---:|
| 2023/24 | 33,088 (21,540)* | 1,340,919 |
| 2022/23 | 4,064 | 936,413 |
| 2021/22 | 5,583 | 1,096,366 |
| 2020/21 | 12,328 | 802,982 |

* Nid yw'r ffigur mewn cromfachau yn cynnwys nifer yr ymweliadau fis Chwefror 2024

3.6 **Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 61 – 63 a 69 – 70)**

3.6.1 Cynhaliwyd archwiliad o’r arwyddion yn ystod y cyfnod adrodd i glustnodi unrhyw arwydd sydd angen ei newid.

3.7 **Gwasanaethau derbynfa (Safonau 64 – 70)**

3.7.1 O'r pedwar aelod o staff (2.6 cyfwerth ag amser llawn) ym mhrif dderbynfa'r Awdurdod, mae dau ar lefel mynediad, un yn rhugl yn y Gymraeg, tra bod un wedi dilyn cyrsiau Cymraeg i lefel ganolradd. Os nad yw’r staff yn gallu delio â galwad eu hunain, maent yn cyfeirio'r galwr yn ddi-oed at gydweithiwr arall sy'n siarad Cymraeg. Fel y nodir yn 3.2.1 darparwyd hyfforddiant i staff gwasanaethau cwsmeriaid ym mhencadlys yr Awdurdod i wella gallu'r tîm i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog.

3.7.2 Mae posteri ‘Iaith Gwaith’ i’w weld ym mhob un o dderbynfeydd yr Awdurdod, ac mae staff sy’n siarad Cymraeg yn gwisgo cortyn neu fathodyn i hysbysu’r cyhoedd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae dysgwyr Cymraeg yn gwisgo laniardau sy’n dwyn y geiriau "Dw i yn dysgu Cymraeg".

3.8 **Grantiau (Safonau 71 – 75)**

3.8.1 Mae’r Awdurdod yn gweinyddu’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, y Gronfa Gwyrddu Amaethyddiaeth a’r Cynllun Cysylltu'r Arfordir. Mae’r Canllawiau a'r ffurflen gais ar gyfer y cronfeydd hyn ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff gohebiaeth ei hateb yn newis iaith yr ymgeisydd. Mae unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gael naill ai’n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

3.8.2 Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod wedi ystyried y polisi grantiau i gynnwys gofyniad i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg fel rhan o’r meini prawf ar gyfer dyfarnu grant.

3.9 **Cyrsiau addysg (Safonau 84 ac 86)**

3.9.1 Nid yw’r Awdurdod yn cynnal cyrsiau addysg fel y cyfryw. Mae’r rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer 2023/24 yn darparu gweithgareddau/digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob ysgol/grŵp sy’n cymryd rhan yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.

3.9.2 Cynhaliwyd 286 o sesiynau gydag ysgolion yn ystod y cyfnod adrodd (mae hyn yn cynnwys Gwobr Dug Caeredin, a sesiynau Addysg Bellach a Phrifysgol), gyda 49 ohonynt (17%) yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, sef cynnydd o 1.1% ar y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd 1,435 o blant a phobl ifanc wedi mynychu’r sesiynau hyn, sef cynnydd o 16.7% ar y cyfnod adrodd blaenorol. Hefyd cynhaliwyd sesiwn ddwyieithog yng Nghastell Henllys ar gyfer Diwrnod Addysg yn y Cartref.

3.9.3 Cynhaliwyd 1,445 o weithgareddau a digwyddiadau (gan gynnwys sesiynau gwirfoddoli) yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 90 ohonynt (6.2%) yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, sef cynnydd o 3.2% ar y cyfnod adrodd blaenorol. Ymhlith y sesiynau hyn oedd Taith Gerdded Gymraeg yn ardal y Preseli i Graig Talfynydd, sgyrsiau â Grwpiau Merched y Wawr a sesiynau

gwirfoddoli. Roedd 1620 o bobl wedi mynychu'r sesiynau hyn, sef cynnydd o 60.4% ar y cyfnod adrodd blaenorol.

3.9.4 Roedd 341 o sesiynau yn ddwyieithog gyda 29,874 yn cymryd rhan, ac mewn rhai achosion roedd y sesiynau dwyieithog hyn wedi disodli'r sesiynau Cymraeg/ Saesneg ar wahân. Roedd y sesiynau hyn yn ymwneud yn bennaf â Phrofiad o'r Oes Haearn yng Nghastell Henllys, digwyddiadau cymunedol, a Chlwb Celf dydd Mercher yn Oriel y Parc, a rhai o'r teithiau dyddiol yng Nghaeriw.

3.9.5 Mae Castell Caeriw wedi cyflwyno taith sain ddwyieithog o gwmpas y Castell sydd wedi bod yn boblogaidd iawn.

3.10 **Yr Arddangosfa Geiriau Diflanedig yn Oriel y Parc**

Mae'r bartneriaeth unigryw rhwng Amgueddfa Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gweld y llyfr poblogaidd Geiriau Diflanedig yn dod yn fyw mewn dwy arddangosfa gwbl ddwyieithog am y tro cyntaf yn 2023/24. Mae'r Geiriau Diflanedig yn archwilio'r berthynas rhwng iaith a'r byd byw, a grym natur i danio'r dychymyg. Roedd yr arddangosfa deithiol, oedd i'w gweld yn Oriel a Chanolfan Ymwelwyr yr Awdurdod yn Oriel y Parc rhwng 2 Gorffennaf 2023 a 2 Mehefin 2024, yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, y gwaith celf gwreiddiol gan Jackie Morris ochr yn ochr â'r cerddi Saesneg gan Robert Macfarlane a'r cerddi Cymraeg a ysgrifennwyd gan Mererid Hopwood.

## 4. SAFONAU LLUNIO POLISI (SAFONAU 88 – 97)

4.1 **Ymgynghori â'r cyhoedd (Safonau 91 – 93)**

4.1.1 Daeth y cyfnod o ymgynghori ar ddwy ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol i ben, oedd yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith gan eu bod yn atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol 2 ac felly yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran asesu effaith:

- Canllawiau Coed a Choetiroedd
- Canllawiau Morweddau

4.1.2 Ar ôl prynu tir ar y Traeth Mawr yn Nhrefdraeth gyda'r nod o wella'r amgylchedd naturiol a diogelwch ar y traeth drwy wneud yr ardal yn ardal dim ceir, roedd yr Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad dwyieithog ar-lein yn hydref 2023. Derbyniwyd ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fe'u cyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr APC fis Mawrth 2024 pan wnaed penderfyniad ar sut i symud ymlaen â'r gwaith ffisegol ar y Traeth Mawr. Roedd yr adborth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gwestiwn yr arolwg 'Beth fyddai'n gwneud Traeth Mawr yn fwy hygyrch i chi?' yn rhan o'r asesiad o'r materion cydraddoldeb ar gyfer y prosiect. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi y bydd unrhyw arwyddion newydd ar gyfer y prosiect yn unol â safonau iaith Gymraeg yr Awdurdod.

## 5. SAFONAU GWEITHREDU (SAFONAU 98 – 144)

5.1 **<u>Polisïau adnoddau dynol (Safonau 105 – 111)</u>**

5.1.1 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru nifer o bolisïau'r Awdurdod, fodd bynnag mae'r holl bolisïau staffio y mae'r Safonau'n ymwneud â hwy ar gael yn ddwyieithog.

5.2 **<u>Y fewnrwyd (Safonau 122 – 126)</u>**

5.2.1 Cafodd mewnrwyd newydd ei chyflwyno yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r testun ar hafan mewnrwyd yr Awdurdod yn ddwyieithog.

5.3 **<u>Asesu sgiliau iaith Gymraeg y staff (Safon 127)</u>**

5.3.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod. Mae'r lefelau sgiliau a ddefnyddiwyd bellach yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd iaith (CEFR):

<u>Lefel</u>

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedr

5.3.2 Ar 31 Mawrth 2024 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 191 o staff. Roedd 47.6% (cynnydd o 11.6%) wedi cwblhau eu data sgiliau iaith:

| Lefel | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mynediad | 45 | 23.6% |
| Sylfaen | 9 | 4.7% |
| Canolradd | 13 | 6.8% |
| Uwch | 9 | 4.7% |
| Hyfedr | 15 | 7.9% |

5.3.3 Bernir bod yr Awdurdod, ar y cyfan, yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau i'r cyhoedd o ran darparu gwasanaeth dwyieithog. Ar y cyfan mae gan yr Awdurdod drosiant isel o staff, a phan fydd swyddi yn dod yn wag, fe'u hasesir o ran gofynion ieithyddol (gweler paragraff 5.5). Yn y cyfamser, anogir staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i ddatblygu neu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

5.3.4 Bydd archwiliad sgiliau iaith Gymraeg i glustnodi anghenion a sgiliau iaith pob tîm yn cael ei ddosbarthu i'r Arweinwyr Tîm cyn hir, a bydd hyn yn cryfhau ymhellach strategaeth yr Awdurdod ar gynllunio ieithyddol.

5.3.5 Mae 18 Aelod yn gwasanaethu ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac maent wedi hunanasesu eu sgiliau Iaith Gymraeg fel a ganlyn:

| Lefel | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mynediad | 5 | 28% |
| Sylfaen | 1 | 5.5% |
| Canolradd | 0 | 0% |
| Uwch | 1 | 5.5% |
| Hyfedr | 3 | 17% |
| Dim sgiliau | 8 | 44% |

5.4 **Cyrsiau iaith Gymraeg (Safonau 130 – 133)**

5.4.1 Mae adolygiadau Lles a Datblygiad yn cael eu cynnal gyda phob aelod o staff, lle clustnodir yr angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg. Cefnogir unrhyw aelod o staff sydd am fynychu cwrs dysgu Cymraeg yn ystod amser gwaith. Mae nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith, a darperir hyfforddiant i ennyn ymwybyddiaeth o’r Gymraeg i bob gweithiwr newydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

5.5 **Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag (Safon 136)**

5.5.1 Pan fydd disgrifiad swydd yn cael ei chreu neu ei diwygio, mae angen i reolwyr asesu gofynion ieithyddol y swydd gan ddefnyddio’r fframwaith iaith a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Defnyddir y ffactorau a ganlyn, ynghyd â’r fframwaith iaith, i bennu lefel y sgiliau sy’n ofynnol ar gyfer y swydd:

(a) A fydd deiliad y swydd yn gweithio mewn maes lle mae angen darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?

(b) A yw’r Awdurdod yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn yn Gymraeg ar hyn o bryd?

5.5.2 Os mai ‘ydy’ yw’r ateb i (b), rhaid i’r rheolwr esbonio sut y mae’r Awdurdod yn darparu’r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Os mai ‘ydy’ yw’r ateb i (a) a ‘nac ydy’ yw’r ateb i (b), rhaid hysbysebu’r swydd yn un lle mae’r Gymraeg yn hanfodol, a dylid nodi lefel y sgiliau iaith sydd eu hangen.

5.5.3 Nodir y gofynion hyn ar y ffurflen ‘Cais i Lenwi Swydd’ a gyflwynir i’r Tîm o Uwch Arweinwyr yr Awdurdod i’w chymeradwyo.

5.5.4 Ceir ystadegau sy'n ymwneud â chategoreiddio swyddi newydd neu swyddi gwag ym mharagraff 6.5.1.

5.6 **Ffurflenni ymgeisio (Safonau 137A – 140)**

5.6.1 Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno proses ymgeisio ar-lein sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ffurflen yn gofyn i unigolion nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad. Gwnaed un cais am hyn yn ystod y cyfnod adrodd.

5.6.2 Os yw'r ymgeisydd yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, bydd y panel cyfweld naill ai'n cynnwys swyddogion sy'n siarad Cymraeg neu bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael. Os yw’r swydd a hysbysebir yn gofyn am sgiliau Cymraeg ond nad yw’r ymgeisydd – er ei fod wedi nodi ei fod yn medru’r Gymraeg – yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, mae

gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i brofi lefel gallu'r ymgeisydd i siarad Cymraeg cyn y cyfweliad.

5.7 **Arwyddion a godir yn y gweithle (Safonau 141 – 143)**

5.7.1 Polisi'r Awdurdod yw bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae rheolwyr y Dderbynfa/Canolfannau wedi cael canllawiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau hyn. Cynhaliwyd archwiliad o'r arwyddion yn ystod y cyfnod adrodd i glustnodi unrhyw arwydd sydd angen ei newid.

## 6. SAFONAU HYBU (SAFONAU 145 – 146)

5.1 **Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gymraeg**

6.1.1 Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu Asesiad o Strategaeth y Gymraeg 2017-2022 ac wedi mabwysiadu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028. Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu i roi'r camau gweithredu ar waith yn y flwyddyn sydd i ddod, ac mae'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn monitro'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth.

## 7. SAFONAU CADW COFNODION (SAFONAU 147 – 154)

7.1 **Cwynion a gafwyd (Safonau 147 – 149)**

7.1.1 Derbyniwyd un gŵyn gan yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd, ynghylch methiant i gyhoeddi ar ei wefan y ffaith y croesewir galwadau yn Gymraeg. Ychwanegwyd brawddeg yn y man priodol i ddatrys hyn. Roedd yr achwynydd hefyd yn gwrthwynebu enw uniaith cyfrif Twitter yr Awdurdod. Arweiniodd y newid cychwynnol i'r enw dwyieithog at gŵyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd yn siarad Cymraeg ac o ganlyniad crëwyd cyfrifon ar wahân ar gyfer negeseuon Cymraeg a Saesneg.

7.2 **Sgiliau iaith Gymraeg (Safon 151)**

7.2.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod. Fel y nodir ym mharagraff 5.3.4, bwriedir cwblhau Archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg yn y flwyddyn sydd i ddod.

7.3 **Cyrsiau hyfforddi (Safonau 152)**

7.3.1 Anogir pob aelod o'r staff i ddysgu Cymraeg, ac roedd 19% o'r gweithlu wedi cwblhau cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Mae cwblhau'r modiwl sylfaenol yn awr yn orfodol i bawb sy'n dechrau o'r newydd i'r Awdurdod.

7.4 **Asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag (Safon 153)**

7.4.1 Rhaid i bob cais i lenwi swyddi newydd neu wag gael ei ystyried gan y Tîm o Uwch Arweinwyr yr Awdurdod (gweler 5.5 uchod). Caiff yr ystadegau eu cofnodi ar system rheoli perfformiad yr Awdurdod a'u hadrodd i'r Pwyllgor

Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

7.5 **Categoreiddio swyddi newydd neu wag (Safon 154)**

7.5.1 Hysbysebwyd 63 o swyddi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd 15 ohonynt â'r Gymraeg yn hanfodol, 45 â'r Gymraeg yn ddymunol neu'n fanteisiol a phenodwyd 3 aelod o staff gyda'r gofyniad eu bod yn dysgu Cymraeg.

## 8. SAFONAU ATODOL (SAFONAU 155 – 175)

8.1 Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio â gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w weld ar wefan yr Awdurdod.

8.2 Mae dogfen "Safonau'r Gymraeg: Sylwadau a Chwynion" ar gael ar wefan yr Awdurdod. Yn y ddogfen honno, rhestrir y Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd â'r broses a ddilynir os bydd rhywun yn gwneud cwyn i'r Awdurdod am fethu yn y ddyletswydd honno.

## 9. MONITRO CYDYMFFURFIAETH

9.1 Prif Weithredwr yr Awdurdod, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am weithredu a monitro Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae unrhyw weithredu sy'n ymwneud â'r Safonau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Hefyd, mae pob Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth ac Arweinydd Tîm yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r Safonau ac mae hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i glustnodi fel canlyniad trawsbynciol drwy bob un o Gynlluniau Cyflawni yr Awdurdod.

9.2 Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo cyn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.